**COMISIWN SEILWAITH CENEDLAETHOL CYMRU**
**Penodi Comisiynwyr**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cydnabyddiaeth ariannol: £300 y dydd

Ymrwymiad amser: 2 ddiwrnod y mis

Nifer y Penodiadau: 9 -11

**Cefndir y Corff**

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) i roi cyngor annibynnol, a fydd yn seiliedig ar well gwybodaeth, ar strategaeth fwy hirdymor ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith a fydd yn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Corff cynghori anstatudol yw CSCC. Ei gylch gwaith yw hoelio sylw ar anghenion Cymru o ran seilwaith economaidd ac amgylcheddol dros gyfnod o 5-30 mlynedd. Bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried y cysylltiadau rhwng yr anghenion hynny a 'seilwaith cymdeithasol'; megis ysgolion, ysbytai a thai. Fodd bynnag, ni fydd disgwyl i CSCC ystyried a rhoi cyngor manwl ar anghenion o ran seilwaith cymdeithasol.

Bydd y cyngor a gynigir gan CSCC yn strategol ac yn ystyried anghenion y dyfodol. Ni fydd rhoi cyngor ar gynlluniau seilwaith sydd ar waith eisoes neu sydd ar fin cael eu gweithredu yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn.

**Y rheswm dros y penodiadau**
Bydd Comisiynwyr CSCC yn cael cyfle unigryw i edrych ar anghenion hirdymor Cymru o ran seilwaith economaidd ac amgylcheddol, gan ddylanwadu ar rwydweithiau seilwaith y dyfodol drwy wneud argymhellion ffurfiol i Lywodraeth Cymru ar gysylltiadau, ffactorau rhyngddibynnol a blaenoriaethau strategol, gan gynnwys y berthynas â seilwaith cymdeithasol fel tai. Bydd y Comisiynwyr yn mireinio rôl CSCC ac yn meithrin consensws â byd diwydiant a rhanddeiliaid eraill.

Bydd y Comisiynwyr yn arweinwyr yn eu meysydd, a bydd ganddynt brofiad o arwain yn strategol ar lefelau uchaf llywodraeth, y byd academaidd neu'r byd busnes mewn un neu fwy o sectorau sy'n gysylltiedig â seilwaith economaidd a/neu seilwaith amgylcheddol (megis ynni, trafnidiaeth, gwastraff, llifogydd, cyfathrebu digidol) neu mewn maes perthynol (megis economeg, cynllunio, cyllid ar gyfer prosiectau/seilwaith, dylunio, peirianneg, technoleg ac arloesi)

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 4 Mawrth 2018. Ni fyddwn yn ystyried ffurflenni cais a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw.

Bydd y sawl a benodir yn Gadeirydd yn aelod o'r panel recriwtio a fydd yn penodi'r Comisiynwyr. Disgwylir i'r Cadeirydd gael ei benodi erbyn mis Mai 2018. Bydd ceisiadau am swyddi Comisiynwyr yn cael eu hystyried ar ôl hynny. Disgwylir i gyfweliadau gael eu cynnal yn ystod mis Mehefin 2018. Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ymgeiswyr pan gyrhaeddir cerrig milltir allweddol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud cais ewch i:
http://cymru.gov.uk/penodiadaucyhoeddus neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, ffoniwch (029) 2082 5454 neu anfonwch e-bost at
DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

Gellir gwneud cais am fersiynau print bras, Braille neu sain o'r hysbyseb hwn drwy ffonio 029 2082 5454.